Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru

Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Adroddiad Blynyddol
2007-2008

Hydref 2008

Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael oddi wrth:
TAAAC,
Uned 32,
Parc Menter Ddole Road,
Llandrindod Wells, Powys, LD1 6PF.
Ffôn: 01597 829800
Ffacs: 01597 829801
e-bost: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 4934 2
© Hawlfraint y Goron Hydref 2008
CMK-22-04-045(145)
D3990809

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru

Special Educational
Needs Tribunal for Wales

At: Jane Hutt AC
Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad Medi 2008

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy mhumed Adroddiad Blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'r adroddiad yn manylu am weithgarwch y Tribiwnlys am y flwyddyn 1 Medi 2007 i 31 Awst 2008.

Rhiannon Ellis Walker OBE
Llywydd, TAAAC

Uned 32, Parc Menter Ddole Road, Llandrindod, Powys, LD1 6PF
Unit 32, Ddole Road Enterprise Park, Llandrindod Wells, Powys, LD1 6PF
Llinell Gymorth | Helpline: 01597 829800
Gweinyddu Cyffredinol | General Administration: 01597 829802
Ffacs | Fax: 01597 829801 • E-bost | E-mail: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk

Cynnwys

Rhagair y Llywydd	1
Nifer yr Apeliadau AAA	5
Y rhaniad rhwng Bechgyn/Merched o ran Apeliadau AAA	6
Cyflymder y Cwblhau	7
Nifer yr Apeliadau fesul AALl	8
Canlyniadau Apeliadau - fesul AALl	9
Mathau o Apêl	10
Natur AAA	12
Canlyniad yr Apeliadau - Cyffredinol	14
Canlyniad yr Apeliadau - fesul Ysgol	15
Canlyniad yr Apeliadau - yn ôl Natur yr AAA	16
Monitro Ethnig	16
Honiadau o Wahaniaethu ar sail Anabledd	17
Apeliadau i'r Uchel Lys	17
Cwynion	17
Ysgrifenyddiaeth	17
Gwariant	18
Aelodau'r Tribiwnlys	19

Rhagair y Llywydd

Dyma fy mhumed adroddiad blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys AAA Cymru (TAAAC). Mae'r adroddiad yn nodi nifer, math a chanlyniadau apeliadau AAA a honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd yn ystod y cyfnod 1 Medi 2007 i 31 Awst 2008.

Yn 2007 gwelsom fabwysiadu'r Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi sydd yn creu newidiadau sylweddol i'r tribiwnlysoedd hynny o fewn y 'Gwasanaeth Tribiwnlysoedd' unedig a hefyd i'r tribiwnlysoedd datganoledig sydd yn parhau y tu allan i'r corff hwnnw. Efallai bod y diwygiadau mwyaf heriol yn effeithio ar awdurdodaethau yn haen gyntaf y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ac a fydd o 3 Tachwedd 2008 yn gweithredu gyda Rheolau Siambr generig newydd. Mae TAAAC, fel tribiwnlys datganoledig yn cadw ei statws annibynnol a bydd yn parhau i weithredu o dan y rheolau a'r trefniadau cyfredol. Er hynny bydd newidiadau o ran prosesau penderfynu ar ôl Tribiwnlys, fel apeliadau ymlaen, y byddaf yn sôn rhagor amdanynt yn nes ymlaen yn y rhagair.

Mae datblygiadau pwysig wedi digwydd hefyd o fewn paramedrau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a gallu deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd â'r grym bellach i greu Mesurau Cynulliad ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae hyn yn gam pwysig ac yn un a fydd rwy'n gobeithio yn arwain at gryfhau systemau a mecanweithiau cefnogi wedi'u hanelu at ddiwallu anghenion addysgol arbennig plant. Yn ddiweddar cyhoeddodd y Prif Weinidog y Mesur arfaethedig cyntaf o dan y gallu hwn: hawl apelio i TAAAC i blant mewn amgylchiadau lle nad yw eu rhieni yn apelio.

Bydd y rhaglen o newid mewn perthynas â'r system gyfiawnder weinyddol a Mesurau Cynulliad arfaethedig yn parhau i esblygu yn ystod y flwyddyn nesaf hon. Pa bynnag ffurf a fydd ar ddeddfwriaeth yn y dyfodol, credaf ei bod yn hanfodol bod hawl apelio statudol yn cael ei gadw a bod y broses yn parhau i fod yn hygyrch ac yn adlewyrchu anghenion ein defnyddwyr. Edrychaf ymlaen at y sialensau sydd o'n blaen, gan wybod bod y Tribiwnlys mewn sefyllfa dda i'w diwallu.

Apeliadau AAA

Eleni mae'r gostyngiad yn nifer yr apeliadau cofrestredig wedi parhau: yn ystod y cyfnod rydym wedi cofrestru 94 o apeliadau, gostyngiad sylweddol o tua 20% ar ffigurau'r llynedd.

Ers creu'r Tribiwnlys yn 2003 a hyd at ddiwedd y flwyddyn adrodd hon rydym wedi cofrestru 606 o apeliadau. Yn ystod tair blynedd cyntaf ein gwaith gwelsom gynnydd cyson yn nifer yr apeliadau, gyda'r nifer uchaf o apeliadau, 150, yn cael

eu cofrestru yn 2005/06. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol blwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae hyn yn neilltuol o amlwg yn y flwyddyn adrodd gyfredol, lle mae cyfanswm nifer yr apeliadau cofrestredig yn llai na'r 117 a gofrestrwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y Tribiwnlys.

Nid oes esboniad clir am yr amrywiaeth yn nifer yr apeliadau nac am y gostyngiad cyfredol. Fe'm calonogir fodd bynnag i nodi bod nifer yr apeliadau cofrestredig yn AALl Casnewydd, yn arbennig, wedi gostwng yn sylweddol, o 16% o'r holl apeliadau a gofrestrwyd gan y Tribiwnlys y llynedd i 2% yn unig eleni. Awdurdodau eraill sydd hefyd wedi cael llai o apeliadau yw AALl Caerdydd a Chaerffili. Yn y rhan fwyaf o Awdurdodau eraill mae'r niferoedd wedi aros yr un fath neu wedi gostwng. Ychydig dros un rhan o dair o AALl sydd wedi gweld cynnydd yn yr apeliadau a gofrestrwyd yn eu herbyn, er yn y rhan fwyaf o achosion ychydig iawn fu'r cynnydd.

Yn adroddiad y llynedd soniais am y cynnydd yn nifer yr apeliadau am wrthod asesu a bod Llywodraeth y Cynulliad wedi esbonio'i sefyllfa gydag AALl ar yr angen i osgoi defnyddio polisïau blanced. Rwy'n falch o adrodd eleni bod gostyngiad amlwg wedi bod yn nifer yr apeliadau am benderfyniadau yn ymwneud â gwrthod asesu.

Mae'r nifer o apeliadau a wnaed ond nas cofrestrwyd wedi gostwng. O'r 8 o apeliadau heb eu cofrestru cafodd 3 eu tynnu'n ôl cyn cofrestru, methodd 2 â chael eu cofrestru oherwydd eu bod y tu allan i'n hawdurdodaeth neu oherwydd bod yr apelwyr yn methu â diwallu'r meini prawf hanfodol ar gyfer cofrestru, cafodd 1 ei wrthod ac mae gweddill yr apeliadau ar hyn o bryd yn aros yn y cyfnod cyn cofrestru. Tra bod cynnydd yn nifer yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau i wrthod darparu datganiad y llynedd, rwy'n falch o adrodd eleni bod ffigurau wedi gostwng ychydig o 16% o'r holl apeliadau a gofrestrwyd y llynedd i 13% eleni, sydd yn fwy unol â blynyddoedd blaenorol. Mae mwyafrif yr apeliadau yn ymwneud â chynnwys rhannau 2,3 a 4 neu yn ymwneud â chynnwys 2 a 3, gwrthod asesu a gwrthod creu datganiad. Mae'r rhain yn ffurfio 32%, 21%, 17% a 13% fel ei gilydd o'r holl apeliadau a gofrestrwyd.

Honiadau Anabledd

Mae'r maes hwn yn parhau yn elfen gymharol fechan o waith y Tribiwnlys. Bu cynnydd bychan eleni gan ein bod wedi cofrestru 9 honiad yn ystod y cyfnod, cafodd un ei gadarnhau, 3 eu gwrthod, 2 eu tynnu'n ôl, mae'r gweddill i'w dwyn ymlaen i'r flwyddyn adrodd nesaf.

Mae Gwasanaeth Cymrodeddu Comisiwn Cydraddoldebau a Hawliau Dynol (cyn hynny Comisiwn Hawliau Anabledd) yn darparu gwasanaeth cymrodeddu ar gyfer anghydfodau gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion. Mae angen gwneud Honiadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd i TAAAC o fewn 6 mis

o unrhyw wahaniaethu honedig, caniateir 2 fis arall lle y defnyddir y Gwasanaeth Cymrodeddu.

Nid yw'n amlwg pam ein bod yn derbyn cyn lleied o honiadau mewn cymhariaeth â'r nifer o apeliadau AAA a gofrestrwyd, er ei bod yn deg dweud bod y gyfraith gwahaniaethu ar sail anabledd yn gymhleth ac mae'r atebion y gall y Tribiwnlys eu gorchymyn yn gyfyngedig. Ond roedd y canllaw a gynhyrchodd Llywodraeth y Cynulliad y llynedd ar Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd mewn Ysgolion yn galonogol a chan ei fod bellach wedi cael cyfle i sefydlu, dylai pob ysgol fod wedi cael y cyfle i greu cynllun cydraddoldeb anabledd effeithiol.

Rheoliadau Tribiwnlysoedd

Adroddais y llynedd bod Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu adolygu ac ail-greu Rheoliadau Tribiwnlysoedd AAA 2001 (fel y'i diwygiwyd). Rhagwelwyd y byddai Llywodraeth y Cynulliad mewn sefyllfa i ymgynghori gyda defnyddwyr a phartïon eraill â diddordeb am y rheoliadau newydd arfaethedig yn ystod y flwyddyn tribiwnlys hon. Deallaf nad yw hyn yn anffodus yn bosibl ond y bydd rheoliadau newydd yn cael eu creu i blethu gyda newidiadau sydd yn angenrheidiol o ganlyniad i Fesur arfaethedig y Cynulliad ar apeliadau plant.

Ar un lefel, mae oedi i reoliadau newydd hawliau yn newyddion siomedig, ond o edrych ymlaen bydd o leiaf yn darparu cyfle i adeiladu ymhellach ar newidiadau arfaethedig ac i archwilio dulliau eraill o brosesu apeliadau trwy, er enghraifft reolaeth achos.

Apeliadau Plant

Adroddais y llynedd ar gynigion a wnaed gan y diweddar Gomisiynydd Plant Cymru, Peter Clark, y dylai fod gan blant yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys. Ers hynny mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori Lleisiau a Dewisiadau, sydd yn gwneud ei ymrwymiad i gynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn prosesau a phenderfyniadau sydd yn effeithio arnynt yn glir.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgynghori oedd 3 Hydref. Nododd y ddogfen y materion cymhleth mewn perthynas â'r cynnig a gofynnodd am farn ar sut y gellid datblygu'r mecanweithiau angenrheidiol i alluogi plant i wneud apêl. Gobeithio bod cymaint ohonoch â phosibl wedi manteisio ar y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'n hanfodol bod polisi'n cael ei ddatblygu yng ngoleuni profiad a barn y rhai sydd yn rhan ohono.

Mae'r Tribiwnlys wrth gwrs yn rhannu diddordeb mawr gyda rhan ddeiliaid eraill mewn sut y caiff y cynigion eu datblygu a bydd yn ymwneud yn agos gyda datblygiadau, a gyda diddordeb.

Gwasanaeth Tribiwnlysoedd

Ar ddechrau'r Rhagair crybwyllais, er ein bod yn aros y tu allan i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, bydd mabwysiad Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 yn parhau i gael effaith ar Dribiwnlysoedd datganoledig fel ni.

Yn fwyaf arwyddocaol bydd apeliadau ymlaen sydd ar hyn o bryd yn mynd i'r Uchel Lys, o 3 Tachwedd 2008 yn cael eu trafod gan Haen Uchaf y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Roeddem yn falch iawn bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gallu cymryd sylw o'r nifer o sylwadau a chryfder teimladau am yr angen i gael presenoldeb parhaol y tribiwnlys uchaf yng Nghymru. Mae hyn wedi esgor ar ymrwymiad y caiff swyddfa ei sefydlu yng Nghymru ac y bydd apeliadau ymlaen o'n Tribiwnlys yn cael eu clywed yng Nghymru gan dalu sylw dyledus i'r iaith Gymraeg. Teimlwn fod hyn yn eithriadol o bwysig i ni ac i bobl Cymru.

Deallaf y bydd newidiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i Reoliadau'r Tribiwnlys i ddarparu ar gyfer y gweithdrefnau newydd. Byddwn yn cynhyrchu canllaw fel bod y newidiadau hyn yn glir i'n defnyddwyr a bydd cyfle hefyd i ran ddeiliaid eu trafod yn y cylch nesaf o gyfarfodydd grŵp defnyddwyr ym mis Tachwedd.

Sylwadau i gloi

Dros gyfnod yr adroddiad rydym wedi gweld newidiadau yn nhîm gweinyddol y Tribiwnlys. Mae Huw Maguire, sydd wedi rheoli'r ysgrifenyddiaeth gydag ymroddiad a brwdfrydedd ers sefydlu'r Tribiwnlys, wedi symud i faes gwaith newydd. Rwy'n siŵr fy mod yn siarad ar ran pawb wrth ddweud y bydd colled ar ôl Huw, ond wrth gwrs rydym yn dymuno'n dda iddo i'r dyfodol yn ei swydd newydd. Yn y cyfamser mae Sian Mills wedi'i phenodi yn ysgrifennydd dros dro ac rwy'n falch iawn o'i chroesawu i'r swydd hon.

Fel y mae nifer ohonoch yn gwybod derbyniais OBE yn Rhestr Anrhydeddau Ei Mawrhydi y Frenhines yn 2008. Rwy'n falch o weld gwaith y Tribiwnlys yn cael ei gydnabod yn y modd hwn ac yn ystyried y wobr fel testament a chydnabyddiaeth o waith caled a chyfraniad amhrisiadwy aelodau ac ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys.

Dim ond trwy ymrwymiad, gwaith caled a ffyddlondeb ei ysgrifenyddiaeth y mae busnes y Tribiwnlys yn gallu rhedeg yn esmwyth. Rwy'n ffodus bod gennyf y fath ysgrifenyddiaeth a diolchaf iddynt am eu hymrwymiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Gyda'r gefnogaeth barhaus hon edrychaf ymlaen i sialensau'r flwyddyn nesaf.

Nifer Apeliadau AAA

Dros y flwyddyn, o 1 Medi 2007 i 31 Awst 2008, derbyniodd Tribiwnlys AAA Cymru 98 o apeliadau am benderfyniadau AAA.

Yn ystod y flwyddyn, cofrestrwyd 94, yn cynnwys 4 a gyflwynwyd o'r flwyddyn flaenorol, gyda'r gweddill naill ai'n cael eu dwyn ymlaen i'r cyfnod adrodd nesaf neu eu gwrthod neu eu tynnu'n ôl cyn eu cofrestru.

Yn ychwanegol at y 94 o apeliadau cofrestredig ymdriniwyd hefyd gyda 24 o apeliadau na lwyddwyd i ymdrin â hwy o fewn blwyddyn flaenorol y Tribiwnlys.

Mae'r cyfnod hwn wedi gweld gostyngiad pellach yn nifer yr apeliadau a gofrestrwyd o flwyddyn flaenorol y Tribiwnlys.

Apeliadau am Flwyddyn Tribiwnlys 2007/08

Apeliadau AAA a gofrestrwyd yn ol blwyddyn Tribiwnlys



Y rhaniad rhwng Bechgyn/Merched o ran Apeliadau AAA

Yn ystod y flwyddyn cofrestrwyd 64 o apeliadau AAA yn ymwneud â bechgyn; y ffigur cyfatebol i ferched oedd 30. Mae hyn yn cyfateb i 68% o'r holl apeliadau'n ymwneud â bechgyn. Ym mlynyddoedd 2003-04 a 2004-05 roedd 73% a 77% o'r holl apeliadau a dderbyniwyd yn gysylltiedig ag AAA bechgyn, tra yn 2005-06 a 2006-07 roeddent yn sefydlog ar 74%.

Rhaniad Bechgen/Merched



Cyflymder Cwblhau'r Gwrandawiad

Mae'r adran hon yn ymdrin â pha mor hir, o ran dyddiau gwaith[1] a gymerodd rhwng i apêl gael ei chofrestru ac i benderfyniad gael ei gyhoeddi.

Mae nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i gwblhau apeliadau (trwy wrandawiadau) wedi codi i 90 o gyfartaledd o 82.9 yn y flwyddyn flaenorol. O'r 28 achos a glywyd, bu'n rhaid gohirio 3.

Nifer y penderfyniadau a gyhoeddwyd	**28**
Nifer cyfartalog o ddyddiau gwaith	**8**

Nifer cyfartalog y dyddiau i benderfyniad gael ei roi yw ychydig o dan 8.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno sut y cwblhawyd 118 o apeliadau (94 a gofrestrwyd ym mlwyddyn Tribiwnlys 2007/08 a 24 a ddygwyd ymlaen o flwyddyn 2006/07) gan gynnwys y nifer o dan ystyriaeth a fydd yn cael eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn Tribiwnlys nesaf.

Bu gostyngiad yn nifer y penderfyniadau a gyhoeddwyd (o 36 i 28). Mae canran yr apeliadau sy'n cael eu tynnu'n ôl gan rieni yn gyson â blynyddoedd blaenorol ond mae gostyngiad amlwg yn nifer yr apeliadau a gydsyniwyd gan AALl, sydd tua 54% o gyfanswm nifer yr apeliadau a gofrestrwyd eleni (o'i gymharu â 60% am 2005/06 ac 06/07 a 54% a 50% yn 04/05 ac 03/04 fel ei gilydd. Mae hyn yn awgrymu mai dim ond yr achosion mwyaf cymhleth sy'n dod gerbron y Tribiwnlys. Byddwn yn parhau i fonitro nifer yr apeliadau sydd naill ai wedi'u tynnu'n ôl neu wedi'u hildio yn hwyr yn y broses a'r effaith a gaiff hyn ar wariant.

Mae canran yr apeliadau a gofrestrwyd ond sydd yn disgwyl gwrandawiad 22% yn uwch na'r ddwy flynedd flaenorol oedd yn 16% fel ei gilydd, ond mae'n ostyngiad ar flynyddoedd blaenorol: 26.54% yn 04/05 a 27.4% yn 03/04.

07/08	Gwirion-eddol	Canran	06/07	Gwirion-eddol	Canran
Penderfynwyd	28	23.73	Penderfynwyd	36	24.16
Tynnwyd yn ôl	46	38.98	Tynnwyd yn ôl	58	38.92
Ildiwyd	18	15.25	Ildiwyd	31	20.80
Dilëwyd	0	0.00	Dilëwyd	0	0.00
Yn disgwyl penderfyniad	26	22.04	Yn disgwyl penderfyniad	24	16.10
Cyfanswm	**118**	**100**	**Cyfanswm**	**149**	**100.00**

[1] Yn unol â rheoliadau Tribiwnlys nid yw'r canlynol yn gynwysedig fel dyddiau gwaith: Sadwrn a Sul, unrhyw ddiwrnod ym mis Awst, unrhyw ddiwrnod o 25 Rhagfyr i 1 Ionawr yn gynwysedig, gwyliau banc.

Apeliadau fesul AALl

Mae'r tabl hwn yn nodi nifer yr apeliadau a gofrestrwyd fesul AALl yn ystod blwyddyn Tribiwnlys 2007/08.

	07/08	(Fesul 10,000 o boblogaeth ysgol)	06/07	05/06	04/05	03/04
Blaenau Gwent	1	0.89	2	4	3	0
Pen-y-bont ar Ogwr	1	0.43	3	2	2	2
Caerffili	2	1.12	12	3	1	3
Caerdydd	19	3.63	26	37	33	35
Sir Gaerfyrddin	19	6.72	5	5	6	5
Ceredigion	1	0.97	2	2	2	1
Conwy	8	4.50	6	1	4	8
Sir Ddinbych	2	1.18	4	2	6	0
Sir y Fflint	1	0.40	1	0	2	3
Gwynedd	2	1.08	1	2	3	3
Merthyr Tudful	0	0.00	2	1	2	0
Sir Fynwy	8	5.65	9	11	8	5
Nedd Port Talbot	3	1.39	2	14	7	6
Casnewydd	2	0.79	19	45	30	15
Sir Benfro	0	0.00	2	0	2	0
Powys	3	1.44	7	5	3	7
Rhondda Cynon Taff	5	1.22	4	3	2	4
Abertawe	5	1.38	4	7	5	7
Torfaen	9	5.47	4	1	4	3
Bro Morgannwg	2	0.90	2	1	0	8
Wrecsam	1	0.52	0	2	1	2
Ynys Mon	0	0.00	1	2	1	0

Canlyniadau fesul AALL

Mae'r tabl hwn yn dangos canlyniadau yn 2007/08 fesul AALl. Mae'r ffigurau yn cynnwys apeliadau cofrestredig a ddygwyd ymlaen o 2006/07 ond a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Lle nad yw apêl wedi'i chadarnhau, mae hyn wedi'i nodi fel 'un a wrthodwyd'.

AALl	Ildiwyd gan AALl	Tynnwyd yn ôl gan y rhieni	Cadarnhawyd yn rhannol neu yn llawn	Gwrthodwyd neu fe'i taflwyd allan yn y gwrandawiad	Yn disgwyl penderfyniad
Blaenau Gwent		1			1
Pen-y-bont ar Ogwr					1
Caerffili		2	2		1
Caerdydd	2	10	7	2	6
Sir Gaerfyrddin	8	6	1		5
Ceredigion			2		
Conwy		8	1		1
Sir Ddinbych			2		
Sir y Fflint					1
Gwynedd	1	1			
Merthyr Tudful					
Sir Fynwy		8	2		
Nedd Port Talbot	1	1	1		
Casnewydd		1	1	1	
Sir Benfro					
Powys	1	1		1	2
Rhondda Cynon Taff	1		2		3
Abertawe	1	4			
Torfaen	3	1	2	1	3
Bro Morgannwg		1			2
Wrecsam		1			
Ynys Mon					

Math o Apêl



- Gwrthodiad i Asesu
- Gwrthodiad i Gweud Datganiad
- Gwrthodiad i Ail-Asesu
- Yn erbyn penderfyniad i beidio â pharhau â'r Datganiad
- Cynnwys Rhannau 2 & 3
- Cynnwys Rhannau 2, 3 & 4
- Cynnwys Rhan 3
- Cynnwys Rhan 4
- Cynnwys Rhannau 3 & 4

Math o Apêl[2]	% Apeliadau 2007/08	% Apeliadau 2006/07	% Apeliadau 2005/06	% Apeliadau 2004/05	% Apeliadau 2003/04
	Cyfanswm Apeliadau 94	**Cyfanswm Apeliadau 118**	Cyfanswm Apeliadau 150	Cyfanswm Apeliadau 127	Cyfanswm Apeliadau 117
Gwrthodiad i Asesu	**17**	**25**	24	25	39
Gwrthodiad i wneud Datganiad	**13**	**16**	7	11	12
Gwrthodiad i Ail-Asesu	**2**	**2**	1	2	2
Peidio â pharhau â'r Datganiad	**2**	**3**	3	2	2
Cynnwys Rhannau 2 a 3	**21**	**24**	21	16	18
Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	**32**	**21**	23	27	11
Cynnwys Rhan 3	**5**	**5**	10	9	7
Cynnwys Rhan 4	**8**	**2**	5	6	5
Cynnwys Rhannau 3 a 4	**0**	**2**	6	2	4

Eleni rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr apeliadau am gynnwys rhannau 2,3 a 4 o'r datganiad. Yn gyffredinol mae apeliadau yn ymwneud â chynnwys datganiadau wedi cynyddu o 55% o'r holl apeliadau a gofrestrwyd y llynedd i 66% eleni. Ar y llaw arall mae apeliadau yn ymwneud â materion ar wahân i gynnwys y datganiad wedi gostwng o 45% yn 2006/07 i 34% eleni.

[2] Crynhoi

Apêl yn ôl Natur yr Angen Addysgol Arbennig

Mae'r wybodaeth isod yn nodi apeliadau yn ôl natur yr AAA. Unwaith eto rydym wedi cofnodi anghenion y cyfeiriwyd atynt gan rieni ac/neu AALl ar adeg yr apêl. Fel y gellid disgwyl mae apeliadau am Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig, Anawsterau Dysgu Penodol a Chymedrol yn cyfrif am bron i hanner yr holl apeliadau cofrestredig. Mae'n ddiddorol nodi y bu cynnydd hefyd mewn apeliadau lle mae AAA lluosog.

Math o AAA



Math o AAA	**% Apeliadau 2007/08**	**% Apeliadau 2006/07**	% Apeliadau 2005/06	% Apeliadau 2004/05	% Apeliadau 2003/04
Anhwylder y Sbectrwm Awtistig	**21**	24	22	30	22
Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol	**8**	7	11	9	7
Nam ar y Clyw	**3**	3	5	1	3
Anawsterau Dysgu Penodol (yn cynnwys Llythrennedd/ Dyspracsia)	**21**	21	20	22	33
Anawsterau Dysgu Cymedrol	**2**	10	2	4	1
Anawsterau Corfforol/Meddygol	**10**	9	9	0	0
Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog	**2**	5	5	0	0
Anawsterau Dysgu Dwys	**0**	1	4	2	4
Anawsterau Lleferydd ac Iaith	**12**	8	9	10	5
Nam ar y Golwg	**0**	0	0	0	0
AAA Lluosog	**18**	7	13	16	16
Arall/Anhysbys	**3**	5	0	6	2

Canlyniadau'r Apeliadau: Cyffredinol

Fel a ddigwyddodd mewn cyfnodau adrodd blaenorol cafodd dros 75%, yn yr achos hwn 77% o'r holl apeliadau a aeth i wrandawiad llawn (h.y. nad oeddent yn destun gorchymyn i'w dileu) eu cefnogi naill ai yn llwyr neu yn rhannol. O'r 28 apêl a aeth i wrandawiad llawn cafodd 5 eu gwrthod.

Math o Apêl	Penderfyniadau a gyhoeddwyd 07/08			Penderfyniadau a Gyhoeddwyd 06/07		
	Cefnogwyd	Gwrthodwyd	Dilëwyd	Cefnogwyd	Gwrthodwyd	Dilëwyd
Yn erbyn Gwrthodiad i Asesu	2	1		3	2	
Yn erbyn Gwrthodiad i wneud Datganiad	1	4		2	3	
Yn erbyn Gwrthodiad i Ail-Asesu				1		
Yn erbyn Penderfyniad i beidio â pharhau â Datganiad				1	2	
Yn erbyn cynnwys Rhannau 2 a 3	2			6		
Yn erbyn cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	16			11	1	
Yn erbyn cynnwys Rhan 3	1					
Yn erbyn cynnwysl Rhan 4	1					
Yn erbyn cynnwys Rhannau 3 a 4				4		
Cyfansymiau	**23**	**5**	**0**	**28**	**8**	**0**

Canlyniadau Apeliadau: Ysgolion

Gwrandawyd ar 17 o apeliadau oedd yn ceisio newid penderfyniadau yn berthynol i'r ysgol a enwyd yn rhan 4 o ddatganiad plentyn. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer 06/07, 05/06, 04/05 ac 03/04 oedd 16, 22, 15 ac 8 yn y drefn honno. O'r 17 o apeliadau, ni orchymynnwyd diwygiadau rhan 4 mewn 10 achos.

	Cefnogwyd newid Rhan 4 y Datganiad	Cefnogwyd newid Rhannau 3 a 4 o'r Datganiad	Cefnogwyd newid Rhannau 2, 3 a 4 o'r Datganiad
Ysgol Prif Ffrwd a Gynhelir			1
Ysgol Arbennig Annibynnol wedi ei Chymeradwyo			1
Ysgol Arbennig a Gynhelir			4
Addysg Gartref			1
Addysg heblaw mewn ysgol			
Addysg ar y cyd gan yr ysgol a'r cartref			

Canlyniadau Apeliadau yn ôl natur yr AAA

Apeliadau yn ôl Math	Penderfyniadau a gyhoeddwyd 2007/08		
	Cefnogwyd	Gwrthodwyd	Dilëwyd
Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig	9	1	
Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol	2	1	
Nam ar y Clyw	2		
Anawsterau Dysgu Penodol (yn cynnwys Llythrennedd/Dyspracsia)	1	3	
Anawsterau Dysgu Cymedrol			
Anawsterau Corfforol/Meddygol	4		
Anawsterau Dysgu Difrifol a Lluosog	1		
Anawsterau Dysgu Dwys			
Anawsterau Lleferydd ac Iaith	3		
Nam ar y Golwg			
AAA Lluosog	1		
Arall/Anhysbys			
Cyfanswm	**23**	**5**	**0**

Monitro Ethnig

Gwahoddir rhieni i lenwi datganiad monitro ethnig sydd yn dod gyda'r hysbysiad o apêl.

	2007/08	2006/07	2005/06	2004/05	2003/04
Bangladeshi	0	0	0	1	1
Affricanaidd Du	0	1	4	1	1
Du arall	0	0	1	0	0
Pacistanaidd	1	3	0	0	2
Gwyn	67	99	135	120	93
Arall	4	2	7	1	2
N/C	22	13	10	24	29

Honiadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd

Gwnaethpwyd a chofrestrwyd 9 honiad o wahaniaethu ar sail anabledd eleni, gyda 1 yn cael ei ddwyn ymlaen ers y llynedd. O'r 10 honiad a gofrestrwyd aeth 4 ymlaen i wrandawiad, cefnogwyd 1 a gwrthodwyd 3. Mae 2 honiad wedi'u tynnu'n ôl ac mae 4 yn aros am wrandawiad.

Apeliadau i'r Uchel Lys

Ar hyn o bryd gall rhieni apelio i'r Uchel Lys lle maent yn credu bod penderfyniad Tribiwnlys yn ddiffygiol ar bwynt cyfraith. Cofrestrwyd 2 apêl Uchel Lys yn erbyn penderfyniadau TAAAC yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â 2 a 3 fel ei gilydd yn 06/07 ac 05/06. Isod ceir crynodeb o'r canlyniadau:

Yn disgwyl am wrandawiad/gorchymyn: 2

Cwynion

Ni wnaethpwyd unrhyw gwynion ffurfiol i'r Llywydd yn ystod y flwyddyn.

Ysgrifenyddiaeth

Fel bob amser, canmolaf waith caled ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys mewn darparu cefnogaeth ardderchog, amserol ac effeithiol i'r Tribiwnlys.

Gwariant - 1 Ebrill 2007 to 31 Mawrth 2008

Gwariant	2007/08 £(000s)
Ffioedd a threuliau Llywydd ac aelodau'r Tribiwnlys	76,909.64
Hyfforddiant Tribiwnlys	6,092.79
Llety ar gyfergwrandawiadau, hyfforddiant a grŵp defnyddwyr	52,110.71
Costau apêl eraill (hawliadau tystion, cyfieithu ac yn y blaen)	3,075.86
Cyflogau	170,525.71
Costau teithio a chynhaliaeth y Clercod/Ysgrifenyddiaeth	7,794.86
Hyfforddiant Staff	1,282.40
Costau Swyddfa (yn cynnwys dosbarthu nwyddau)	5,082.02
Costau argraffu a chyfryngau	2,116.00
Ffioedd cyfreithiol	15,323.21
Llai'r swm a dderbyniwyd gan DfES am waith anabledd:	23,353.00
CYFANSWM	**£316,960.20**

Yn ychwanegol at y gwariant uniongyrchol mae canran o'r costau rhent a chyfleustodau ar y llety a rennir gan y Tribiwnlys, cyfran o tua £20k a delir yn ganolog.

Cyfanswm gwariant am y blynyddoedd blaenorol:

2006/07 Cyfanswm £345,118

2005/06 Cyfanswm £363,353

2004/05 Cyfanswm £249,732

2003/04 Cyfanswm £407,000

Aelodau'r Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn cynnwys yr aelodau canlynol ac maent i gyd wedi naill ai llywyddu gwrandawiadau neu wedi eistedd arnynt yn ystod y flwyddyn 1 Medi 2007 i 31 Awst 2008:

Llywydd	Rhiannon Ellis Walker
Cadeiryddion	Mark Allen Jacqueline Blackmore Gwyn Davies Meleri Tudur
Aelodau Llyg	Sandra Boyle Norman Donovan Gwyn Griffiths Gareth Roberts Siân Wyn Siencyn Susan Taylor Andrew Wilson

Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys

Yr ysgrifenyddiaeth sydd yn gyfrifol am weinyddu'r Tribiwnlys.

Rheolwraig/ Ysgrifennydd (dros dro)	Siân Mills	Ffôn. 01597 829804
Rheolwraig y Tîm Apeliadau	Pam Sansom	Ffôn. 01597 829802
Rheolwraig y Tîm Apeliadau (dros dro))	Sarah Jenkins	Ffôn. 01597 829809
Clerc/Cefnogaeth y Tîm	Leon Mills	Ffôn. 01597 829805
Clerc/Cefnogaeth y Tîm	Gwag	

Mae gennym Linell Gymorth Tribiwnlys hefyd (01597 829800) a blwch post: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk